**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 01-02(p1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 30 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9:30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Cadeirydd |

**Diben**

1. Rhoi'r diweddaraf am y materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2001.

**Argymhelliad**

2. Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

***Trefniadau Mynediad***

3. Caiff trefniadau mynediad eu trafod yn un o gyfarfodydd y Bartneriaeth Busnes yn y dyfodol.

***Newidiadau i'r System Ceiswyr Lloches***

4. Yn ystod pythefnos cyntaf mis Chwefror, cyhoeddir Papur Gwyn ar y newidiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ynghylch ceiswyr lloches. Caiff copïau eu dosbarthu i'r Aelodau.

***Cymdeithas y Plant yng Nghymru***

5. Ar 18 Rhagfyr 2001, roedd swyddog o Swyddfa Cymru yn bresennol yn sesiwn tystiolaeth lafar y Pwyllgor Materion Cymreig gyda Chymdeithas y Plant. Bu Ian Sparks, Prif Weithredwr Cymdeithas y Plant, yn rhoi tystiolaeth. Ers y cyfarfod mae'r Gymdeithas wedi mynd ati i ariannu ymgynghorydd i gynorthwyo'r staff i baratoi cynllun busnes ac mae'r Ymddiriedolwyr yn dymuno gweld a fyddai'n bosibl gweithio yng Nghymru tan fis Mawrth 2003, gan ddibynnu ar y sefyllfa ariannol.

***Lansio Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence***

6. Mae llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn atodedig.

***Yn Gadarn o Blaid Anabledd***

7. Mae llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn atodedig.

***Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio***

8. Mae adroddiad, 'Polls Apart' a ariannwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd, wedi ei amserlennu ar gyfer y cyfarfod ar 6 Mawrth 2002 am i Will Bee ymddiheuro nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod hwn. Mae trefniadau ar y gweill i wahodd yr Athro Sunderland, Cadeirydd y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru, a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod i'r cyfarfod.

***Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus***

9. Bydd y cod yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.